**PENODI 2 AELOD ANNIBYNNOL AR BWYLLGOR SAFONAU CYNGOR SIR DDINBYCH**

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am fynegi diddordeb mewn gweithio gyda Chyngor Sir Ddinbych.

Mae ein Pwyllgor Safonau yn rhoi mewnbwn annibynnol gwerthfawr i'r gweithdrefnau a'r protocolau y mae'n rhaid i Gynghorwyr eu dilyn, ac mae recriwtio pobl â'r sgiliau a'r rhagolygon cywir yn allweddol i'w llwyddiant. Gobeithiwn ar ôl darllen y pecyn cais y byddwch yn dewis gwneud cais am y rôl a gynigir.

Gobeithio bod y cyfle hwn o ddiddordeb i chi ac edrychaf ymlaen at dderbyn eich cais.

Cofion,

Maggie Griffiths
**Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych**

# PENODI 2 AELOD ANNIBYNNOL AR BWYLLGOR SAFONAU CYNGOR SIR DDINBYCH

Rydym am benodi 2 Aelod Annibynnol i Bwyllgor Safonau'r Cyngor sy'n gyfrifol am hyrwyddo, cynnal a gwella trefniadau moesegol o fewn yr Awdurdod a Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn Sir Ddinbych.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos annibyniaeth, uniondeb a diduedd rwydd wrth gyflawni gwaith y pwyllgor a meddu ar y rhinweddau a'r sgiliau a ganlyn:-

- Sgiliau gwrando
- Y gallu i ddeall a phwyso a mesur tystiolaeth
- Doethineb
- Y gallu i ddatblygu barn wrthrychol a'r gallu i egluro safbwynt wrth gyfeirio at y dystiolaeth
- Parch tuag at eraill a dealltwriaeth o faterion amrywiol.
- Empathi â'r Iaith Gymraeg a Diwylliant
- Profiad o fynychu a chyfrannu at gyfarfodydd

Nid oes rhaid cael gwybodaeth fanwl o lywodraeth leol er y byddai o fantais pe byddai gan ymgeiswyr ddiddordeb mewn materion sy'n berthnasol i fywyd cyhoeddus a gwasanaethau. Yn ogystal, rhaid i aelodau annibynnol:-

- Bod yn gymwys i'w ethol fel Aelod Annibynnol fel y diffinnir yn Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001 (gweler isod pwy na all fod yn aelod annibynnol*)
- Yn gallu rhoi'r amser sydd ei angen a bod ar gael ar fyr rybudd
- Bod â pharch yn y gymuned
- Gallu darparu geirda gan ddau berson
- Ni ddylai ymgeiswyr fod yn anghymwys (e.e. o dan Adran 80 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972)

***Ni all berson fod yn aelod annibynnol os yw:**

- yn gynghorydd neu'n swyddog (neu briod neu bartner sifil i gynghorydd neu swyddog) unrhyw Gyngor Sir/Bwrdeistref Sirol, Awdurdod Parc Cenedlaethol, Awdurdod Tân neu Gyngor Dinas, Tref a Chymuned
- yn gyn-aelod uwch, cabinet neu weithredol o Gyngor Sir Dinbych o fewn y 5 mlynedd cyn eu penodiad (Mai 2026)
- yn gyn-gynghorydd i Gyngor Sir Dinbych o fewn y 2 flynedd cyn eu penodiad (Mai 2026)
- yn gyn-swyddog a oedd yn dal swyddi cyfyngedig gwleidyddol yn flaenorol neu a oedd yn swyddogion cofrestru Cyngor Sir Dinbych neu Awdurdod Parc Cenedlaethol, Awdurdod Tân neu Gyngor Dinas, Cymuned neu Dref o fewn Sir Dinbych o fewn y 2 flynedd cyn eu penodiad (Mai 2026)

**Taliadau i Aelodau Annibynnol**

Byddwch yn derbyn rhwng £105 a £268 y diwrnod yn dibynnu ar eich rôl ac mae'r Pwyllgor Safonau yn cyfarfod hyd at 6 gwaith y flwyddyn yn Sir Ddinbych.

Bydd pob cais yn cael ei farnu yn ôl ei deilyngdod a bydd yr angen i gael cydbwysedd o sgiliau, rhinweddau ac arbenigedd ar y Pwyllgor yn ogystal â'r angen i gynrychioli'r gymuned gyfan a chyflawni gwasgariad daearyddol i gyd yn cael ei ystyried wrth wneud y penodiadau terfynol.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 7fed Ebrill 2026. Bydd y penodiad yn amodol ar gyfweliad gyda Phanel Cynghori ar 24ain Ebrill 2026. Bydd y Panel Cynghori yn gwneud argymhelliad ar y 12fed Mai 2026 i'r Cyngor Llawn a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y penodiad.

Am sgwrs anffurfiol am y rôl cysylltwch â Gary Williams, Swyddog Monitro ar gary.williams@sirddinbych.gov.uk neu 01824 712562.

Mae ffurflenni cais ar gael gan Amy Foster ar amy.foster@sirddinbych.gov.uk neu dros y ffôn ar 01824 712607

**Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.**

**Rhagymadrodd**

Mae'r Pwyllgor Safonau yn chwarae rhan ganolog yn y fframwaith moesegol sy'n rheoli ymddygiad Aelodau Awdurdodau Lleol. Mae pob aelod o Awdurdod Lleol a phob Cyngor Dinas, Tref a Cymuned wedi ymrwymo i gadw at y Cod Ymddygiad i Aelodau. Prif rôl y Pwyllgor yw hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan y Cynghorwyr hyn a'u cynorthwyo i gadw at God Ymddygiad yr Aelodau.

Y brif ffordd y mae'r Pwyllgor yn cyflawni'r ddyletswydd hon yw drwy sicrhau bod codau, protocolau a phrosesau'r Cyngor yn atgyfnerthu ymddygiadau sy'n sail i'r cod. Mae'r Pwyllgor hefyd yn adolygu adroddiadau gan gyrff fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac arferion o fewn Cynghorau eraill, er mwyn gweld a oes modd dysgu gwersi.

Mae gan y Pwyllgor rai swyddogaethau penodol gan gynnwys ystyried cwynion bod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad a gosod sancsiwn lle bo'n briodol. Mae hefyd yn ystyried ceisiadau a wneir gan Aelodau am ollyngiadau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.

Mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys 7 Aelod. Mae ei aelodaeth yn cynnwys:

- 4 Aelod "annibynnol", nad ydynt naill ai'n Gynghorydd neu'n Swyddogion nac yn briod i Gynghorydd neu Swyddog o'r Cyngor hwn neu unrhyw Awdurdod perthnasol arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, sydd wedi'u penodi yn unol â'r weithdrefn a nodir yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd);
- 2 Gynghorydd ar wahân i'r Arweinydd a dim mwy nag un aelod o'r Pwyllgor Gwaith; ac
- 1 Aelod o Gyngor Cymuned

Mae Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych fel arfer yn cyfarfod bob deufis ar ddydd Gwener gyda chyfarfodydd yn dechrau am 10.00 a gallant bara hyd at 3 awr. Bydd hyd at 6 chyfarfod y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd yn rhai hybrid sy'n golygu y gall aelodau fynychu o bell drwy Zoom neu'n bersonol yn Neuadd y Sir, Rhuthun. Yn ogystal, mi fydd na sesiwn hyfforddi o 30 munud cyn i'r cyfarfod ddechrau yn ymwneud â gwaith y Pwyllgor.

Mae Aelodau Annibynnol yn cael eu talu yn unol â chyfraddau a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Ar hyn o bryd, y cyfraddau hynny yw £105 i £268 y dydd yn dibynnu ar eu rôl ar y pwyllgor. Gall aelodau hefyd hawlio lwfansau teithio a chynhaliaeth am fynychu cyfarfodydd corfforol a "dyletswyddau cymeradwy" eraill.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus ddechrau ar eu penodiadau ar unwaith ac, yn amodol ar derfynu neu ymddiswyddiad, yn gwasanaethu am rhwng 4 a 6 blynedd. Mae posibilrwydd hefyd o ail-benodi am dymor pellach o rhwng 4 a 6 blynedd.

***Dogfennau Defnyddiol:***

https://www.denbighshire.gov.uk/cy/dogfennau/eich-cyngor/ynglyn-ar-cyngor/cyfansoddiad-y-cyngor/cyngor-sir-ddinbych-cyfansoddiad-mai-2023.pdf
https://www.denbighshire.gov.uk/cy/dogfennau/eich-cyngor/ynglyn-ar-cyngor/cyfansoddiad-y-cyngor/cod-ymddygiad-aelodau.pdf
https://www.denbighshire.gov.uk/cy/dogfennau/eich-cyngor/ynglyn-ar-cyngor/cyfansoddiad-y-cyngor/y-cod-ymddygiad-ar-gyfer-aelodau-awdurdodau-lleol-yng-nghymru.pdf
https://www.denbighshire.gov.uk/cy/dogfennau/polisiau-ad/fy-nghyflogaeth/hyfforddiant-ymsefydlu/cod-ymddygiad-swyddogion-f2-1a.pdf

**Rôl y Pwyllgor Safonau**

Bydd gan y Pwyllgor Safonau y rolau a swyddogaethau canlynol:

- hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig yr Awdurdod;
- cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r Aelodau cyfetholedig i ddilyn Cod Ymddygiad Aelodau;
- cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad Aelodau;
- monitro gweithrediad Cod Ymddygiad Aelodau;
- cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i Gynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig ar faterion sy'n gysylltiedig â'r Cod Ymddygiad Aelodau;
- rhoi gollyngiadau i gynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwys a rhiant lywodraethwr o ofynion sy'n ymwneud â buddiannau a bennir yng Nghod Ymddygiad Aelodau;
- delio ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- arfer (a) i (e) uchod mewn perthynas â'r Cyngor Sir a'r Cynghorau Cymuned yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn ardal y Cyngor Sir.
- mewn ymgynghoriad â’r Swyddog Monitro, ystyried materion eraill sy’n briodol ac yn angenrheidiol i gynnal safonau ymddygiad uchel y Cyngor, ei aelodau ac aelodau cyfetholedig. (Mae hyn yn cynnwys rolau a gymeradwywyd dan y Protocol ar gyfer Cysylltiadau Aelodau/Swyddogion, y Protocol Hunan Reoleiddio neu unrhyw Brotocol perthnasol arall).
- cynnal Adolygiad Blynyddol o ganfyddiadau o achosion o dorri Cod Ymddygiad Aelodau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a rhoi gwybod am ei sylwadau (os oes unrhyw rai) i’r Cyngor.
- i dderbyn atgyfeiriadau gan Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor ynglŷn â materion presenoldeb gan Aelodau mewn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.
- monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor â’u dyletswyddau o dan adran 52A(1) Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, a
- chynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy’n ymwneud â’r dyletswyddau hynny
- caiff unrhyw aelod o’r Pwyllgor Safonau fynychu trafodion y Cyngor, y Cabinet a phwyllgorau sefydlog y mae’r wasg a’r cyhoedd wedi’u gwahardd ohonynt, cyn belled â’i fod ef neu hi wedi llofnodi Cod Ymddygiad yr Aelodau.

**Yr Aelodau Annibynnol**

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos annibyniaeth a didueddrwydd wrth gynorthwyo'r Pwyllgor Safonau i hyrwyddo, cynnal a gwella trefniadau moesegol o fewn Cyngor Sir Ddinbych a Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned ei Sir.

Mae gwaith y Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau Annibynnol feddu ar y rhinweddau a'r sgiliau a ganlyn:-

- Sgiliau gwrando
- Y gallu i ddeall a phwyso a mesur tystiolaeth
- Doethineb
- Y gallu i ddatblygu barn wrthrychol a'r gallu i egluro safbwynt wrth gyfeirio at y dystiolaeth
- Parch tuag at eraill a dealltwriaeth o faterion amrywiol.
- Empathi â'r Iaith Gymraeg a Diwylliant
- Profiad o fynychu a chyfrannu at gyfarfodydd

Nid oes rhaid cael gwybodaeth fanwl o lywodraeth leol er y byddai o fantais pe byddai gan ymgeiswyr ddiddordeb mewn materion sy'n berthnasol i fywyd cyhoeddus a gwasanaethau. Yn ogystal, rhaid i aelodau annibynnol:-

- Bod yn gymwys i'w ethol fel Aelod Annibynnol fel y diffinnir yn Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001 (gweler isod pwy na all fod yn aelod annibynnol*)
- Yn gallu rhoi'r amser sydd ei angen a bod ar gael ar fyr rybudd
- Bod â pharch yn y gymuned
- Gallu darparu geirda gan ddau berson
- Ni ddylai ymgeiswyr fod yn anghymwys (e.e. o dan Adran 80 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972)

***Ni all berson fod yn aelod annibynnol os yw:**

- yn gynghorydd neu'n swyddog (neu briod neu bartner sifil i gynghorydd neu swyddog) unrhyw Gyngor Sir/Bwrdeistref Sirol, Awdurdod Parc Cenedlaethol, Awdurdod Tân neu Gyngor Dinas, Tref a Chymuned
- yn gyn-aelod uwch, cabinet neu weithredol o Gyngor Sir Dinbych o fewn y 5 mlynedd cyn eu penodiad (Mai 2026)
- yn gyn-gynghorydd i Gyngor Sir Dinbych o fewn y 2 flynedd cyn eu penodiad (Mai 2026)
- yn gyn-swyddog a oedd yn dal swyddi cyfyngedig gwleidyddol yn flaenorol neu a oedd yn swyddogion cofrestru Cyngor Sir Dinbych neu Awdurdod Parc Cenedlaethol, Awdurdod Tân neu Gyngor Dinas, Cymuned neu Dref o fewn Sir Dinbych o fewn y 2 flynedd cyn eu penodiad (Mai 2026)

**Proses Ymgeisio**

Os ydych yn dymuno bwrw ymlaen â'ch cais, cwblhewch a dychwelwch y ffurflen gais a'r ffurflen cyfle cyfartal atodedig i amy.foster@sirddinbych.gov.uk.

Am sgwrs anffurfiol am y rôl cysylltwch â Gary Williams, Swyddog Monitro ar gary.williams@sirddinbych.gov.uk neu 01824 712562.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 7fed Ebrill 2026.

Bydd y penodiad yn amodol ar gyfweliad gyda Phanel Cynghori ar 24ain Ebrill 2026.

Bydd y Panel Cynghori yn gwneud argymhelliad ar y 12fed Mai 2026 i'r Cyngor Llawn a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y penodiad.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg.

Rydym yn croesawu ceisiadau o bob rhan o'n cymunedau amrywiol gan gynnwys pobl ifanc, menywod, pobl ag anableddau, lleiafrifoedd ethnig a grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn prosesu'r data personol gan ddefnyddio ei awdurdod swyddogol ac yn ei ddefnyddio dim ond at ddibenion recriwtio ac aelodaeth o'r Pwyllgor Safonau. Dim ond gyda'r swyddogion a'r Aelodau hynny sy'n ymwneud â'r broses recriwtio y bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu (gan nodi y bydd y penodiad terfynol yn cael ei wneud ar ffurf adroddiad sy'n hygyrch i'r cyhoedd i'r Cyngor Sir gyfan). Os byddwch yn llwyddiannus, byddwn yn cadw eich ffurflen gais am dymor eich gwasanaeth ar y Pwyllgor Safonau. Os byddwch yn aflwyddiannus bydd eich ffurflen gais yn cael ei dinistrio'n ddiogel ar ddiwedd y broses recriwtio. Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau a sut i gwyno os ydych yn anhapus â'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch data personol ar gael ar wefan y Cyngor.

https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preifatrwydd/preifatrwydd.aspx#